Rhif: **WG21069**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ysgolion sy'n achosi pryder: canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol

Dyddiad cyhoeddi: **Chwefror 2014**

# Ysgolion sy’n achosi pryder: canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg mewn cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; cymdeithasau athrawon a chyrff cenedlaethol a lleol eraill sy’n ymwneud ag addysg yng Nghymru. |
| **Trosolwg** | Mae’r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar Ysgolion sy’n Achosi Pryder: canllawiau drafft i ysgolion ac awdurdodau lleol. |
| **Camau i’w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion<br>Yr Adran Addysg a Sgiliau<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk |
| **Copïau ychwanegol** | Mae’r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau |
| **Dogfennau cysylltiedig** | *Ysgolion sy’n Achosi Pryder: canllawiau drafft i ysgolion ac awdurdodau lleol* (2013) |

ISBN digidol 978 1 4734 0953 8
© Hawlfraint y Goron 2014
WG21069

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **2** |
| **Trosolwg o’r ymatebion i'r ymgynghoriad** | **3** |
| **Y camau nesaf** | **20** |
| **Rhestr o'r ymatebwyr** | **21** |

# Cyflwyniad

Roedd y cyfnod ymgynghori yn para o 4 Mawrth 2013 i 29 Ebrill 2013. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar 15 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

Daeth yr ymatebion a dderbyniwyd oddi wrth bump o undebau athrawon, tri awdurdod lleol, Consortiwm, Gwasanaeth Cynghori ar Addysg, Gwasanaeth Addysg Gatholig, ysgol, CLlLC, Llywodraethwyr Cymru ac un arall.

Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol ar ysgolion sy'n achosi pryder. Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth i awdurdodau lleol am y gofynion deddfwriaethol newydd ar gyfer ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder y darparir ar eu cyfer gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Maent hefyd yn nodi'r camau sydd gan Weinidogion Cymru i'w cymryd wrth arfer eu swyddogaethau ymyrryd a chydsynio eu hunain.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad yn electronig a rhoddwyd gwybod amdano i awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru, cymdeithasau athrawon a chyrff cenedlaethol a lleol sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.

Cyn yr ymgynghoriad, rhannwyd y canllawiau drafft â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol – Estyn, CLLC, Cyfarwyddwyr Addysg, Awdurdodau Esgobaethol, Llywodraethwyr Cymru a'r Comisiwn Elusennau.

Mae'r adroddiad yn cychwyn gyda'r cefndir, yna ceir trosolwg ac wedyn dadansoddiad cryno o bob cwestiwn yn yr ymgynghoriad. Gellir cael gafael ar gopi o'r ymgynghoriad yn:

http://cymru.gov.uk/consultations/education/schools-causing-concern-draft-statutory-guidance-to-local-authorities/?lang=cy

## Cefndir

Pasiwyd Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 15 Ionawr 2013 a derbyniodd Gydsyniad Brenhinol ar 4 Mawrth 2013.

Mae Pennod 1 rhan 2 y Ddeddf yn ymwneud ag awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae llawer o'r darpariaethau ym Mhennod 1, rhan 2 y Ddeddf yn ailddeddfiadau o ddeddfwriaeth flaenorol, ond mae rhai newidiadau er mwyn sicrhau bod llai o ysgolion yn dod yn destun pryder. Mae adran 20 o 'r Ddeddf yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder.

Bydd y canllawiau statudol yn cynorthwyo awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried defnyddio'u pwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Nod y darpariaethau yn y Ddeddf a'r canllawiau statudol cysylltiedig yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn eglur ynglŷn â'u pwerau ymyrryd eu hunain a phwerau Gweinidogion Cymru a'u bod yn defnyddio'u pwerau'n bendant ac yn effeithiol er mwyn cymell gwelliant cyflym mewn ysgolion sy'n tangyflawni. Mae'r darpariaethau hyn yn ffurfio rhan o raglen weithredu ar y cyd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i godi safonau ysgolion yng Nghymru.

Mae'r diwygiadau yn y Ddeddf yn ymateb i bryderon bod rhai ysgolion mewn nifer o awdurdodau lleol wedi cael eu gadael i dangyflawni dros gyfnod hir o amser, yn bennaf am nad yw awdurdodau'n defnyddio ystod lawn eu pwerau i wella ysgolion yn ddigon cyflym. Mae tystiolaeth yn awgrymu mai prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio dan amgylchiadau o'r fath. Awgrymodd ymgynghori anffurfiol ag awdurdodau lleol fod y gyfraith fel y mae yn aneglur ac roedd y meini prawf ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio yn eu cymell i beidio â'u cyhoeddi'n ddigon buan. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn cydgrynhoi, yn egluro ac yn diwygio'r gyfraith mewn perthynas ag ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder ac yn cynnwys pŵer newydd i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol yn y cyswllt hwn.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi'n eglur y gweithdrefnau y dylai awdurdodau lleol eu dilyn er mwyn sicrhau bod ysgolion sy'n achosi pryder yn gwneud y newidiadau angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd.

# Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Derbyniwyd pymtheg o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno â strwythur, arddull a chywair y canllawiau. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n glir ac yn disgrifio pryd mae ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth, y seiliau dros ymyrryd, cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio a phwerau a'r mathau o ymyrraeth gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y canllawiau'n glir o ran ysgolion sydd angen Gwelliannau Sylweddol neu'n destun Mesurau Arbennig a'r camau y dylid eu cymryd. Mae rhai o'r sylwadau a wnaed wedi'u nodi a diwygiwyd y canllawiau yn unol â hynny.

Nodir isod y cwestiynau a ofynnwyd, y prif bwyntiau a godwyd ac ymatebion Llywodraeth Cymru iddynt.

## Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno â strwythur, arddull a chywair y canllawiau statudol drafft? Os na, ym mha ffordd y gellid ei wella?

Roedd pedwar o'r ymatebwyr yn cytuno, nid oedd pedwar wedi rhoi sylwadau penodol i'r cwestiwn a ofynnwyd, tra bo eraill wedi darparu'r sylwadau canlynol:

**Sylwadau cadarnhaol**

- Mae cael dogfen gydlynol yn fanteisiol er mwyn i ysgolion a chyrff llywodraethu ddeall y broses pan fo ysgolion angen cymorth i godi safonau.

- Mae'r canllawiau'n darparu dull strwythuredig, sy'n glir ac yn hawdd manteisio arno a'i ddeall. Nid yw'r cywair yn ymosodol ac mae'n egluro'r ddeddfwriaeth yn syml. Rwy'n gwerthfawrogi cael yr holl ddeddfwriaeth gysylltiedig mewn un ddogfen glir.

- Mae'r canllawiau'n amlinellu'n glir beth yw prif rolau a chyfrifoldebau Gweinidogion ac awdurdodau lleol er mwyn gweithredu'n bendant pan fo safonau'n annerbyniol a'r angen i weithio'n effeithiol â chyrff eraill, e.e. Estyn ac awdurdodau Esgobaethol. Gall awdurdodau lleol fod yn sicr bod disgwyl i Weinidogion Cymru weithredu'n bendant pan fo safonau addysgol yn isel neu pan fo rheolaeth yn wan.

- Wedi'u cyflwyno'n dda gydag adrannau a phenawdau clir drwyddo draw.

- Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT), ar y cyfan, yn cydnabod bod y canllawiau wedi'u llunio'n dda ac yn cyflwyno gwybodaeth ddigonol er mwyn i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru ddeall pryd fyddai'n briodol cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio.

**Sylwadau negyddol**

- Mae cywair cyffredinol y ddogfen yn eithaf negyddol, yn enwedig wrth gyfeirio at awdurdodau lleol.

- Mae NASUWT yn gwrthwynebu'n gryf y datganiadau am dangyflawni sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau. Dylai'r angen i gyhoeddi canllawiau fod yn seiliedig ar ffeithiau yn hytrach nag ar dybiaethau. Mae NASUWT yn cwestiynu hygrededd yr honiad yn y cyflwyniad bod sawl ysgol wedi tangyflawni mewn nifer o awdurdodau lleol dros gyfnod hir o amser.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – dyma'r datganiad y cyfeirir ato yn y cyflwyniad 'Mewn nifer o awdurdodau lleol wedi cael eu gadael i dangyflawni dros gyfnod hir o amser, yn bennaf am nad yw awdurdodau'n defnyddio ystod lawn eu pwerau i wella ysgolion yn ddigon cyflym'[*]. Mae'r datganiad hwn wedi'i gymryd o ragair adroddiad blynyddol Estyn 2010-11 ac mae'n seiliedig ar ganfyddiadau arolygiadau. Bydd y datganiad yn aros fel y mae.**

**Awgrymiadau**

- Dylai'r Canllawiau bwysleisio'r dewisiadau sydd ar gael i awdurdodau lleol cyn ymyrryd yn ffurfiol a rhagdybir y bydd awdurdodau lleol yn gweithredu ac na fyddant yn gyndyn i wneud hynny.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r canllawiau yn amlygu rôl a chyfrifoldeb awdurdodau lleol mewn nifer o lefydd mewn perthynas â monitro eu hysgolion yn systematig, eu cynorthwyo ac ymyrryd pan fo angen – mae paragraff 33 yn egluro y dylai awdurdodau lleol fod yn monitro perfformiad eu hysgolion ac mae paragraffau 39 a 40 yn awgrymu beth ddylai awdurdodau lleol ei wneud os oes ganddynt bryderon cyn ystyried hysbysiad rhybuddio ffurfiol. Mae paragraff 2.1 yn nodi mai 'Yn ôl yr arfer, awdurdodau lleol fydd yn gweithredu yn y lle cyntaf'.**

- Gallai atodiadau gynnwys diagramau llif er mwyn dangos gwybodaeth gryno.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae Atodiad 3 yn darparu siart llif o'r broses dan sylw ar gyfer ysgolion sydd angen mesurau arbennig neu welliannau sylweddol.**

- Mae NASUWT yn credu y gellid gwella'r ddogfen drwy gyfuno'r ail a'r trydydd bwled o'r cyflwyniad i ddarllen ' Mae'r darpariaethau yn y Ddeddf a'r canllawiau statudol cysylltiedig hyn yn darparu un pwynt cyfeirio ar gyfer awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried defnyddio'u pwerau i ymyrryd mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Eu nod yw sicrhau bod awdurdodau lleol yn glir ynglŷn â'u pwerau ymyrryd gan yr

[*] Gwnaethpwyd y datganiad hwn gan Brif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn adroddiad blynyddol Estyn 2010/11.

awgryma tystiolaeth mai prin yw'r awdurdodau lleol hynny sydd wedi cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio o dan amgylchiadau o'r fath.

**Ymateb Llywodraeth Cymru – anghytuno. Bydd y paragraffau'n aros fel y maent.**

- Mae NASUWT yn croesawu eglurhad o baragraff 18.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – noda'r paragraff nad yw'r canllawiau'n gyngor cyfreithiol. Dylai awdurdodau lleol fod yn gyfarwydd â'r ddeddfwriaeth y mae'r canllawiau yn ymwneud ag hi.**

## Cwestiwn 2 – A yw'r canllawiau'n dangos yn eglur pryd bydd ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth'?

Roedd deg o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol i'r cwestiwn a ofynnwyd gan bedwar, a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

**Sylwadau**

- Mae Llywodraethwyr Cymru yn credu ei bod yn hanfodol bod ysgolion/cyrff llywodraethu yn cael cymorth a chanllawiau perthnasol ac amserol er mwyn gwella unrhyw ddiffygion cyn cychwyn ymyrraeth ffurfiol neu cyn cyhoeddi hysbysiadau rhybuddio. Mae'n rhaid sicrhau bod y corff llywodraethu'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gynnydd sylweddol a dylai fod yn rhan lawn o'r broses ddatrys. Mae Llywodraethwyr Cymru yn falch o nodi y cynhelir yr ymgynghoriad â'r corff llywodraethu/ysgol cyn yr ymyrraeth.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Cytunwyd a nodwyd.**

- Byddem yn gwerthfawrogi Atodiad (ar yr hyn sy'n gwneud ysgol yn gymwys ar gyfer ymyrraeth) y gellid ei gopïo/rhannu/arddangos fel cymorth cof i swyddogion.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r wybodaeth berthnasol wedi'i chynnwys yn y grynodeb ar gychwyn y canllawiau.**

- Mae NASUWT yn cydnabod bod y canllawiau'n glir pan ystyrir fo ysgol yn 'gymwys ar gyfer ymyrraeth' ond mae ganddo bryderon am y ddibyniaeth ar safbwyntiau, barn a chyngor arolygu Estyn ac mae'n cwestiynu annibyniaeth Arolygiaeth Cymru. Mae NASUWT yn hysbysu y bydd Estyn, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru yn cael eu dwyn i gyfrif am unrhyw benderfyniadau sy'n codi o ymyrraeth sy'n effeithio'n niweidiol ar fywydau a bywoliaeth athrawon, arweinwyr ysgolion, a gweithlu ehangach yr ysgolion, lle mae penderfyniad o'r fath yn seiliedig ar safbwyntiau gwallus a/neu unochrog, neu lle bu methiant i ddilyn prosesau priodol yn ôl y gyfraith.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

## Cwestiwn 3 – A yw'r canllawiau yn dangos yn eglur pa fathau o wybodaeth allai ddynodi bod seiliau dros ymyrryd yn bodoli?

Roedd deg o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol i'r cwestiwn a ofynnwyd gan bedwar, a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

- Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn ddefnyddiol.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Mae NASUWT yn cwestiynu natur cosbi a byrdwn y dull sydd wrth wraidd pwerau ymyrryd. Mae'r Undeb yn dadlau y bydd hygrededd a sefyllfa'r canllawiau'n cael eu pennu ar sail pa mor anaml y defnyddir y pwerau ymyrryd, yn hytrach na pha mor aml.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Gallai'r geiriad 'Pennu'r seiliau' fod yn nes at gychwyn y ddogfen a dylid cynnwys y dystiolaeth dros seiliau 4,5 a 6 fel ag y mae ar gyfer seiliau 1-3.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r adran ar gychwyn y ddogfen. Cytunwn y dylid cynnwys tystiolaeth dros seiliau 4, 5 a 6, bydd y wybodaeth yn cael ei hychwanegu.**

## Cwestiwn 4 – A yw'r canllawiau'n eglur mewn perthynas â chyhoeddi hysbysiadau rhybuddio?

Roedd naw o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol i'r cwestiwn a ofynnwyd gan bedwar, a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

- Dylid rhoi adborth/gwybodaeth i'r corff llywodraethu/ysgol er mwyn trafod cynnwys yr hysbysiad rhybuddio.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r hysbysiad rhybuddio yn gam ffurfiol yn y broses ymyrryd. Byddai cyrff llywodraethu/ysgolion wedi cael cyfle cyn y cam hwn i drafod materion â'r awdurdod lleol am bryderon yr awdurdod. Mae'r canllawiau'n amlygu y byddai trafodaethau'n cael eu cynnal. Bydd yr hysbysiad rhybuddio yn nodi'r manylion a'r rhesymau dros ymyrryd a'r camau sy'n ofynnol i'r corff llywodraethu eu cymryd.**

- Dyma'r dewis olaf ond gall fod yn angenrheidiol mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, yn 1.2, ar ôl y gair 'gwrthod' byddem yn ychwanegu'r geiriau ychwanegol 'neu'n methu â gwneud hynny'.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nid yw hyn yn angenrheidiol. Os nad oedd ysgol yn gallu ymgysylltu ag awdurdod lleol am reswm penodol, byddai angen i'r awdurdod lleol ddatrys y mater hwn cyn symud ymlaen.**

- Yn 1.5, byddem yn pwyso i gael rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer cymorth ar gyfer gwelliant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru – nid yw'r ddogfen yn awgrym ei bod yn arfer da i awdurdod lleol ddarparu canllawiau i gyrff llywodraethu ar sut y byddent yn cydymffurfio. Fodd bynnag, byddwn yn ychwanegu llinell at baragraff 1.15 yn nodi y bydd awdurdodau lleol yn parhau i gynorthwyo'r ysgol i wneud gwelliannau.**

- Yn 1.19 mae angen nodi terfyn amser rhwng hysbysiad gwreiddiol a'r canfyddiadau arolygu dilynol sy'n gwneud ysgol yn gymwys yn awtomatig ar gyfer ymyrraeth.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – na. Os yw ysgol yn destun mesurau arbennig neu welliannau sylweddol yn dilyn arolygiad, mae'n disodli'r amserlen a ddarparwyd ar gyfer y cyfnod cydymffurfio yn hysbysiadau rhybuddio awdurdodau lleol.**

- Byddai llythyr drafft/enghreifftiol mewn perthynas â hysbysiad rhybuddio i gorff llywodraethu yn sicrhau mwy o gysondeb ar draws awdurdodau lleol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – ni fyddai'n briodol darparu hysbysiad rhybuddio drafft. Nid yw hysbysiadau rhybuddio yn gyffredinol a gellir eu cyflwyno ar gyfer amrywiaeth o wahanol resymau a byddent yn cynnwys amserlenni a chamau gweithredu sy'n benodol i amgylchiadau ysgolion penodol. Mae paragraff 1.13 y canllawiau yn nodi'r wybodaeth sylfaenol y dylid ei chynnwys mewn hysbysiad rhybuddio.**

- Mae pwynt 34 yn cyfeirio at arsylwi uniongyrchol ar yr ansawdd addysgu fel tystiolaeth i'w defnyddio gan yr awdurdod lleol ar gyfer gweithredu.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cyfeirir at hyn ym mharagraff 39. Wrth wneud hynny, byddai'r awdurdod lleol yn ystyried yr ystod lawn o wybodaeth ansoddol a meintiol cyn penderfynu a ddylid ymyrryd.**

- Mae gan NASUWT bryderon y bydd awdurdodau lleol yn teimlo bod rheidrwydd arnynt i gyhoeddi hysbysiadau rhybuddio gan ofni beirniadaeth gan y cyhoedd a bod yn destun gwawd gan Weinidogion Cymru os defnyddir dull mwy cefnogol. Mae'r pryder hwn yn seiliedig ar yr awgrym bod llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi caniatáu i rai ysgolion dangyflawni dros gyfnod maith. Awgrymir bod Llywodraeth Cymru yn ymddangos fel pe bai'n ymfalchïo yn nifer yr awdurdodau lleol ac ysgolion y mae Estyn yn ystyried eu bod yn methu. Mae NASUWT yn hyderus na fydd awdurdodau lleol yn mabwysiadu'r dull hwn o atebolrwydd ysgolion sy'n gwneud dim ond tanseilio hyder y cyhoedd yn y system addysg yng Nghymru a gostwng ysbryd athrawon, arweinwyr ysgolion a'r gweithlu ehangach mewn ysgolion.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – dylai'r gefnogaeth fod yno o'r cychwyn cyntaf pan fo ysgol mewn trafferthion. Yr amcan cyffredinol yw sicrhau nad yw disgyblion yn treulio cyfnodau estynedig mewn ysgolion sy'n achosi pryder. Mae gan**

**awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i fonitro ac ymyrryd yn ôl yr angen a phan fo pryderon am safonau ysgolion. Dylai'r awdurdod lleol, mewn trafodaeth â chorff llywodraethu a thîm uwch reoli'r ysgol, weithredu ar unwaith i nodi meysydd i'w gwella a chytuno ar gamau priodol. Os nad yw materion yn cael eu datrys, bydd awdurdodau lleol yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth ar berfformiad ysgol er mwyn ffurfio barn a yw'n briodol cyhoeddi hysbysiad rhybuddio ai peidio.**

## Cwestiwn 5 – A yw'r canllawiau'n ddigon eglur mewn perthynas â phwerau awdurdod lleol a'r mathau o ymyrraeth, eu diben, ym mha amgylchiadau fyddai orau i'w defnyddio a'r gofynion sy'n rhaid eu bodloni cyn defnyddio'r pwerau hynny?

Roedd naw o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol gan bedwar a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

- Yn yr ail frawddeg ym mharagraff 4.18 ar ôl 'Os mai'r awdurdod lleol yw'r awdurdod priodol ar gyfer yr ysgol' mae angen ychwanegiad er mwyn sicrhau eglurder '(h.y. pan nad oes gan yr ysgol gyllideb ddirprwyedig)'. Mae hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad 5,ond dylid ei gynnwys yn y prif destun hefyd.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno i'w gynnwys**.

- Mae'r problemau'n ymwneud mwy â gallu nag eglurder. Efallai nad oes gan rai awdurdodau lleol y gallu i ddarparu cymorth. Mae'n rhaid sicrhau proses fonitro llym ar y lefel a'r math o gymorth y gall awdurdodau lleol ei gynnig. Mae nifer fawr o awdurdodau lleol sydd dan fesurau arbennig eu hunain yn dangos bod angen mynd i'r afael â hyn ar frys.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd**. **Mae Consortia yn helpu gyda materion gallu. Mae ymyriadau yn cael eu cyflwyno er mwyn helpu'r awdurdodau lleol sydd dan fesurau arbennig i wella.**

- Dylai Adran 39 gynnwys cyfeiriad at amodau lleol a thystiolaeth gan/barn rhieni a staff (fel yn 1.5).
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nid oes ei angen yma gan fod rhagor o fanylion ar y dystiolaeth feintiol ac ansoddol sydd ar gael wedi'u cynnwys ym mharagraffau 1.5 i 1.11.**

- Mae pwynt 35 yn defnyddio'r term cyfnod mesuradwy. Oes unrhyw ganllawiau ar hyd y cyfnod hwn neu a ydyw 'yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol'? A fydd hyn yn anghyson ledled Cymru?
  **Ymateb Llywodraeth Cymru –cyfeirir at hyn ym mharagraff 40. Bydd yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol. Mae'n dibynnu i raddau helaeth ar natur y pryder. Bydd angen ystyried amrywiaeth o ffactorau cyn penderfynu beth fyddai cyfnod mesuradwy.**

- Mae pwynt 2.25 yn nodi ‘Os na roddwyd y dyddiad y byddai’r BGI yn gorffen gweithio yn yr hysbysiad sefydlu, rhaid i’r awdurdod lleol anfon ail hysbysiad at y corff llywodraethu cysgodol yn pennu’r dyddiad y bydd y BGI yn dod i ben’. Gallai’r canllawiau ddangos sut y mae’r corff llywodraethu wedi’i sefydlu, sut mae’n cysylltu â BGI wrth drosglwyddo ac ati.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – er bod rhagor o wybodaeth am y mater hwn yn Atodiad 1 y canllawiau, bydd rhywfaint o naratif yn cael ei gynnwys yng nghorff y canllawiau.**

## Cwestiwn 6 – A yw’r canllawiau’n eglur ynglŷn â’r camau sydd gan Weinidogion Cymru i arfer eu pwerau ymyrryd a’u swyddogaethau cydsynio eu hunain?

Roedd wyth o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol i’r cwestiynau a ofynnwyd gan chwech, a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

- Os ystyrir bod ysgol angen gwelliannau sylweddol a heb dderbyn hysbysiad rhybuddio, pryf byddai Gweinidogion Cymru yn cychwyn ymyrryd?
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nid oes amserlen benodol. Byddai’n dibynnu ar sail yr ymyrraeth a’r math o ymyrraeth sydd ei angen.**

- Ar ba seiliau y byddai Gweinidogion Cymru yn ymyrryd, o gofio bod Estyn angen gweld gwelliannau sylweddol mewn 12 mis
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae hyn wedi’i nodi ym mharagraff 3.2. Byddai disgwyl i Weinidogion Cymru weithredu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.**

- Rydym wedi dychryn braidd nad oes fawr o ystyriaeth wedi’i rhoi i’r effaith niweidiol y gallai arfer pwerau o’r fath ei chael ar ysgolion a’r cymunedau lleol yr effeithir arnynt (cyfeirio at yr ymyrraeth gydag Ysgol Uwchradd Llanrhymni).
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Gellir defnyddio pwerau Gweinidogion Cymru yn unig pan fo awdurdod lleol wedi methu â gweithredu neu wedi gweithredu’n annigonol. Bydd y rhain yn ysgolion, sydd ym marn Estyn, angen gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig. Os yw’r awdurdod lleol wedi methu â gweithredu neu wedi methu â gwneud hynny’n ddigonol, mae’n debygol bod yr ysgolion hyn wedi achosi pryder am beth amser. Wrth bennu a yw ysgol yn achosi pryder, byddai disgwyl i Weinidogion Cymru ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol sydd ar gael.**

## Cwestiwn 7 – A yw’r canllawiau’n eglur ynglŷn ag ysgolion y pennir eu bod angen gwelliant sylweddol neu fesurau arbennig a’r camau sydd i’w cymryd gan gyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol?

Roedd naw o ymatebwyr yn cytuno, ni chafwyd sylwadau penodol gan bump a chafwyd y sylwadau canlynol gan y gweddill:

- Mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn gyfarwydd â chategorïau Estyn a’r camau gweithredu sy’n ofynnol gan y corff llywodraethol a’r awdurdod lleol.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Bydd NASUWT yn dwyn cyrff llywodraethu ysgolion ac awdurdodau lleol i gyfrif os yw’r camau gweithredu a gymerir yn dilyn ymyrraeth yn methu â pharchu’n llawn hawl contractiol a hawliau athrawon, yn seiliedig ar unrhyw achosion o fanteisio ar athrawon, arweinwyr ysgol a’r gweithlu ysgol ehangach, neu’n arwain at gynnydd mewn achosion o fwlio ac aflonyddu yn y gweithle.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae darpariaethau ar waith i ddwyn cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol i gyfrif ym Mhennod 1 a 2 Rhan 2 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 os yw’r corff llywodraethu neu’r awdurdod lleol yn gweithredu’n afresymol wrth arfer swyddogaeth addysg neu wedi methu â chydymffurfio â dyletswyddau dan y Deddfau Addysg. Mae’r awdurdod lleol yn gorff cyhoeddus ac felly mae’n destun adolygiad gan y llysoedd os yw’n gweithredu’n anghyfreithlon.**

## Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi ymdrin yn benodol â nhw, defnyddiwch y gofod hwn i sôn amdanynt.

Cafwyd y sylwadau canlynol gan rai o’r ymatebwyr:

- Mae yna bryder bod y ddogfen yn awgrymu bod Gweinidogion Cymru yn gwybod yn well nag awdurdodau lleol mewn perthynas â’r hyn sydd ei angen ar ysgol, er enghraifft, cyflwyno hysbysiadau rhybuddio neu roi cyfarwyddyd i gau ysgolion. Dylai Gweinidogion gyfeirio eu pryderon at yr awdurdod lleol ac nid cysylltu ag ysgolion eu hunain. Awdurdodau lleol ddylai wneud y penderfyniad yn dilyn ymgynghori, gan mai nhw sydd yn y sefyllfa orau i fonitro ac ymdrin ag ysgolion.
  Gallai “agendâu gwleidyddol” fwrw cysgod dros “flaenoriaethau addysgol”.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ymyrryd yn y lle cyntaf, maen nhw’n gyfrifol am ysgolion yn eu hardal a dylent adnabod eu hysgolion yn dda. Mae’r darpariaethau yn galluogi Gweinidogion Cymru i**

**ymyrryd lle mae awdurdodau lleol wedi methu ag ymyrryd neu wedi gwneud hynny'n annigonol ac mae angen ymyrraeth. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru weithredu'n rhesymol. Mae penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn agored i gael eu herio gerbron y llysoedd os teimlir eu bod wedi gweithredu'n afresymol a gall Aelodau Cynulliad graffu ar benderfyniadau Gweinidogion Cymru yn y Cynulliad.**

- Mae systemau ar waith ar gyfer monitro ac asesu awdurdodau lleol, pa systemau sydd ar waith ar gyfer monitro ac asesu Gweinidogion?
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Gall Aelodau Cynulliad graffu ar benderfyniadau Gweinidogion Cymru yn y Cynulliad. Mae penderfyniadau Gweinidogion Cymru hefyd yn agored i gael eu herio gerbron y llysoedd os teimlir eu bod wedi gweithredu'n afresymol. Ym mhob achos, disgwylir i Weinidogion Cymru weithredu'n rhesymol yn unol â rheolau Wednesbury.**

- Mae pryderon am broblemau gallu posibl mewn Awdurdodau Lleol Consortia Rhanbarthol wrth gynorthwyo ysgolion i wella. Bydd y canllawiau'n golygu y bydd disgwyl i ysgolion ddefnyddio a dadansoddi data cymharol yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'n rhaid i hyn, fodd bynnag, gael ei gysylltu'n glir â phrosesau hunanwerthuso, rheoli perfformiad a gosod targedau ysgolion. Rydym yn ystyriol hefyd o'r amrywiaeth o weithgareddau dysgu ac ymgysylltu a fydd yn digwydd mewn ysgolion er mwyn gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc. Dylid rhoi ystyriaeth i'r rhain hefyd.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno y dylid ei gysylltu â phrosesau hunanwerthuso ysgolion, bydd y canllawiau'n cael eu cryfhau er mwyn pwysleisio'r pwynt hwn.**

- Mae angen ymhelaethu ar sail 2 (dadansoddiad o'r ffordd y caiff ysgol ei rheoli neu ei llywodraethu). Hoffem weld materion personél yn cael eu monitro; er enghraifft, achosion gallu a wrthwynebir, materion disgyblu a chwyno, gweithredu diwydiannol ac ati yn cael sylw dyledus. Gall bob un o'r rhain roi gwybodaeth hanfodol am ansawdd rheoli mewn ysgolion ac efallai y gall fod yn sbardun i alw ar yr awdurdodau lleol.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno i gynnwys cyfeiriad at achosion gallu a disgyblu yn y canllawiau er nad yw'r rhestrau hyn yn gyflawn, maen nhw'n enghreifftiau o dystiolaeth.**

- Hoffem weld awdurdodau lleol yn cael digon o gwmpas i ddatblygu eu trefniadau 'anffurfiol' eu hunain wrth nodi'r ysgolion sy'n dechrau achosi pryder. Rydym yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi anogaeth i'r trefniadau hyn.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb i fonitro ysgolion a nodi problemau posibl yn gynnar, a dylid cael mecanweithiau cadarn ar waith er mwyn gwneud hyn. Dylai awdurdodau lleol adnabod eu hysgolion a chydweithio â**

**nhw er mwyn sicrhau nad yw'r problemau'n troi'n argyfwng. Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi anogaeth gadarn i'r dull hwn.**

- Mae gan lawer o awdurdodau lleol ddulliau ymyrryd anffurfiol a byddai'n ddefnyddiol rhannu'r arferion hyn. A fyddai'n briodol cynnwys gwybodaeth/syniadau/ymyriadau y gallai awdurdodau lleol eu defnyddio cyn iddynt benderfynu defnyddio'r dull mwy ffurfiol o hysbysiadau rhybuddio?
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – byddai hyn yn ddefnyddiol iawn a dylai awdurdodau lleol a'r consortia fod yn rhannu arferion gorau. Fodd bynnag, nid yw'r ymatebydd wedi darparu enghreifftiau penodol.**

- O ran y cyfeiriad at arsylwi uniongyrchol ar yr ansawdd addysgu yn y datganiad ym mharagraff 39 mewn perthynas â chael amrywiaeth briodol o dystiolaeth er mwyn cyfiawnhau pryderon awdurdod lleol – pwy fydd yn arsylwi'n uniongyrchol? Mae yna amheuon gwirioneddol a oes gan bob awdurdod lleol yr arbenigedd priodol i gyflawni arsylwadau o'r fath. Y cyngor fyddai tynnu'r cyfeiriad hwnnw o'r ddogfen gan ei fod yn ddiangen, o gofio'r cyfeiriad cyffredinol at dystiolaeth feintiol ac ansoddol ym mharagraff 1.5.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Awdurdodau lleol fyddai'n penderfynu pwy fyddai'r unigolion hynny, gan sicrhau bod ganddynt y profiad angenrheidiol Fodd bynnag, byddai Arweinwyr Systemau'r Consortiwm yn ddewis da.**

- Er bod paragraff 1.17 yn sefydlu gweithdrefn ar gyfer cyrff llywodraethu mewn perthynas â chwyno wrth y Gweinidog am ymddygiad afresymol gan yr awdurdod lleol, nid oes unrhyw derfynau amser wedi'u nodi nac unrhyw ofyniad ar awdurdod lleol i atal unrhyw weithredu tan y bydd y Gweinidog wedi penderfynu a ellir cyfiawnhau'r gŵyn. Yn anffodus, ceir achosion o dangyflawni gan ysgol sy'n ganlyniad i dangyflawni gan awdurdod lleol sydd wedi methu â darparu cymorth ystyrlon i'r ysgol wrth fynd i'r afael â materion fel tangyflawni staff a datrys cwynion a materion disgyblu.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – ni fyddai Llywodraeth Cymru am gyfyngu'r camau gweithredu drwy osod terfynau amser. Byddai'n dibynnu ar amgylchiadau pob achos unigol.**

- Croesewir rheoliadau'n sy'n gwneud Cynlluniau Gwella yn statudol.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i gyflwyno rheoliadau mewn perthynas â Chynlluniau Datblygu Ysgol. Rhagwelir y bydd y rheoliadau hyn yn dod i rym yn 2014.**

- Nid yw'r ddogfen yn egluro'r berthynas sydd angen ei sefydlu rhwng yr awdurdod lleol a Llywodraeth Cymru er mwyn atal unrhyw densiwn posibl o ganlyniad i unrhyw gamau gweithredu gan y ddau barti yr un pryd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru – bydd yr awdurdod lleol yn cael copi o'r hysbysiad rhybuddio a gyflwynir i ysgol gan Weinidogion Cymru – bydd hyn yn nodi'r camau gweithredu a'r amserlenni er mwyn atal unrhyw ddryswch.**

- Mae'r ysgolion sydd wedi'u cwmpasu gan y canllawiau yn cynnwys dosbarthiadau chwech a gynhelir (h.y. chweched dosbarth o fewn ysgol sydd hefyd yn addysgu disgyblion o oedran ysgol gorfodol). Gellid dadansoddi hyn i ddarllen y bydd darpariaeth chweched dosbarth yn cael ei hystyried ar wahân dan y chwech o seiliau sy'n achosi pryder, ac felly gallai un o Weinidogion Cymru ddefnyddio'r broses hon i gau chweched dosbarth heb gau'r ysgol. Mae angen eglurhad pellach ar y mater hwn.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – Mae'r canllawiau'n egluro'r pwynt hwn yn adrannau 3.17-3.19. Yn y mwyafrif o achosion bydd penderfyniad bod ysgol angen mesurau arbennig neu welliannau sylweddol yn berthnasol i ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer pob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae gan Estyn y potensial i benderfynu bod darpariaeth chweched dosbarth o fewn ysgol angen gwelliannau sylweddol. Os dyfernir bod angen gwelliant sylweddol ar chweched dosbarth ysgol mewn dau arolwg Estyn dilynol, neu os asesir nad oes angen mesurau arbennig ar ysgol a gynhelir ond bod angen gwelliant sylweddol ar ei chweched dosbarth, gall Gweinidogion Cymru argymell newid cymeriad yr ysgol a fyddai'n arwain at gau chweched dosbarth yr ysgol honno.**

- Nodir bod y canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut mae'r canllawiau'n berthnasol i Ysgolion Sefydledig yn benodol. Mae angen datblygu'r pwynt hwn ymhellach yn y dogfennau.
  **Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r canllawiau a'r darpariaethau cysylltiedig yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn berthnasol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Mae ysgolion sefydledig yn ysgolion a gynhelir ac felly'n cael eu cynnwys yn y canllawiau.**

- Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried ymyrryd mewn ysgol benodol mae'n bwysig ymgynghori â'r awdurdod lleol er mwyn cadarnhau a oes unrhyw gamau gweithredu cyfredol ar waith fel rhan o'r cyfnod o gymorth cynnar.
- **Ymateb Llywodraeth Cymru – Os yw Gweinidogion Cymru yn ymyrryd byddant yn ystyried yr holl faterion cyn gwneud penderfyniad. Bydd y canllawiau'n cael eu cryfhau er mwyn amlygu'r pwynt hwn.**

- Cyflwynir yr hysbysiad rhybuddio ar sail y chwech o seiliau sy'n achosi pryder. Mae paragraff (1.2) yn cyfeirio at y broses o gyflwyno hysbysiad rhybuddio os yw ysgol yn gwrthod ymgysylltu'n adeiladol â'r awdurdod lleol. Nid yw hyn yn un o'r seiliau, oni bai y gellir dehongli

hwn o dan sail rhif 6. Mae'n bwysig sicrhau bod gan y broses o gyflwyno hysbysiadau rhybuddio gysylltiad clir â'r chwe sail ac ni ddylai'r ddogfen gyflwyno ffyrdd ehangach o ddefnyddio hysbysiadau rhybuddio y tu allan i'r broses hon. Fel arall, dylid cyflwyno "sail 7" sy'n ymwneud â gwrthod cydymffurfio â gofynion awdurdodau lleol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno y dylid egluro'r mater hwn ymhellach. Bydd y paragraff yn cael ei ddiwygio i gynnwys y geiriad 'os yw o leiaf un o'r seiliau dros ymyrryd yn cael eu bodloni' ar y diwedd.**

- Mae'r chwe sail yn ymddangos yn briodol ac maen nhw'n diffinio'n glir y meini prawf dros ymyrryd.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Mae angen i'r prif ffynonellau gwybodaeth mewn perthynas â rheoli a llywodraethu ysgolion gynnwys effeithiolrwydd yr arweinyddiaeth wrth fonitro safonau a dwyn staff i gyfrif, cynllun gwella'r ysgol a thystiolaeth bod y cynllun wedi'i roi ar waith, trefniadau sefydliadol yr ysgol a threfniadau cynnal yr ysgol yn effeithiol o ddydd i ddydd ac olrhain cynnydd disgyblion. Nid yw'r gallu i wella yn ffynhonnell dystiolaeth. Wrth ystyried arweinyddiaeth, dylid defnyddio Safonau Arweinyddiaeth ar gyfer Penaethiaid i lunio'r dystiolaeth.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – (cyfeirio at baragraffau 1.09-1.11) enghraifft yw'r wybodaeth a ddarperir yn y canllawiau, nid yw'r rhestr yn gyflawn.**

- Tystiolaeth o Fethiant disgyblu – nid yw dwy frawddeg olaf y paragraff hwn yn nodi'n glir a ydynt yn ymwneud â'r broses o gyflwyno hysbysiad rhybuddio ynteu'n ymwneud â'r pwerau wrth gefn sydd gan awdurdodau lleol eisoes ar gyfer rhoi cyfarwyddyd i ysgolion. A ddylai hwn fod yn baragraff ar wahân?
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno i'w rannu'n 2 baragraff er mwyn ei wneud yn fwy eglur.**

- Paragraff 1.15 – dylid cyfnewid "mynnu" am "pennu bod yn rhaid i'r corff llywodraethu gymryd". Neu "yn mynnu bod …. Mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn gwbl glir.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – anghytuno. Bydd y geiriad yn parhau fel y mae gan mai dyna'r geiriad a ddefnyddir mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.**

- Mae'r canllawiau'n awgrymu os yw'r awdurdod lleol wedi cyflwyno hysbysiad rhybuddio i ysgol a bod yr ysgol felly'n gymwys ar gyfer ymyrraeth, bydd y cymhwysedd hwn yn dod i ben os yw Gweinidogion Cymru yn cyflwyno hysbysiad rhybuddio i'r corff llywodraethu. Nid yw'n glir sut gall hysbysiad rhybuddio Gweinidogion atal unrhyw weithredu ac ymyrraeth bellach gan awdurdodau lleol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – bydd ymyrraeth awdurdodau lleol yn dod i ben mewn 3 achos:**

1. **Yr awdurdod lleol ei hun yn penderfynu pryd daw ymyrraeth i ben;**
2. **Gweinidogion Cymru yn penderfynu y dylai ymyrraeth gan awdurdod lleol ddod i ben ac yn hysbysu'r awdurdod o hyn; ac**
3. **Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi eu hysbysiad rhybuddio eu hunain.**

**Mae'r canllawiau yn egluro hyn ym mharagraff 2.31.**

- Y ddealltwriaeth yw bod disgwyl i awdurdodau lleol weithredu yn y lle cyntaf. Nid yw'n eglur sut y bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu a yw'r awdurdod lleol wedi methu â gweithredu'n briodol ac a fydd camau gweithredu blaenorol awdurdodau lleol yn cael eu hystyried gyda nhw cyn i'r Gweinidogion benderfynu ymyrryd mewn ysgol benodol. Dylid ymgynghori â'r awdurdod lleol ymlaen llaw er mwyn cadarnhau'r camau a gymerwyd a pha mor briodol oeddent.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – Disgwylir i Weinidogion Cymru weithredu mewn amgylchiadau eithriadol yn unig. Byddent yn ystyried yr ystod lawn o dystiolaeth ansoddol a meintiol sydd ar gael, gan gynnwys camau gweithredu blaenorol awdurdod lleol, wrth benderfynu a yw ysgol yn achosi pryder ac wrth ddod i benderfyniad ynglŷn â'r ffordd fwyaf priodol o ymyrryd os yw hynny'n angenrheidiol. Bydd llinell yn egluro hyn yn cael ei hychwanegu at y canllawiau yn adran 3.**

- Croesewir gallu awdurdodau lleol i'w gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud contract er mwyn sicrhau cyngor neu gydweithio.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Nid yw diben y testun sydd yn y blwch ym mharagraff 2.3 yn eglur – a yw'n enghraifft neu'n grynodeb – os yw'n grynodeb, yna nid yw'n cynnwys gofyniad i wneud contract (mae'r testun diweddarach yn gwneud hynny).
**Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r testun sydd yn y blychau yn enghreifftiau o'r achosion y gellid cymryd camau gweithredu.**

- Os yw Gweinidogion Cymru yn penderfynu talu llywodraethwr ychwanegol, pam na all yr awdurdod lleol arfer ei hawl i atal hawl y Corff Llywodraethau i gyllideb ddirprwyedig?
**Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r testun sy'n ymwneud â hyn ym mharagraff 3.9 wedi'i osod yn y lle anghywir. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â darpariaeth Byrddau Gweithredol Interim a bydd yn cael ei thynnu allan.**

- Ym mharagraff 77, ni chaiff awdurdod lleol atal yr hawl i gyllideb ddirprwyedig os penodir Bwrdd Gweithredol Interim. Nodir ym mharagraff 59 nad oes gofyn i awdurdod lleol ddychwelyd hawliau cyllideb ddirprwyedig os ydynt yn penodi llywodraethwyr. A yw paragraff 86 yn achos o dorri a gludo yn anghywir? O bosibl mae angen i'r datganiad am atal hawliau i gyllideb ddirprwyedig ymddangos

ym mharagraff 89 mewn perthynas â Bwrdd Gweithredol Interim lle na sonnir amdano, yn hytrach nag yma.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – ydy, mae'r geiriad yn y man anghywir, bydd y canllawiau'n cael eu haddasu yn unol â hynny.**

- Gall y Gweinidog benderfynu y dylai ysgol gau os nad oes gan ysgol obaith o wella, ond bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol dalu'r costau o derfynu contractau staff. Gall hyn fod yn annheg i awdurdodau lleol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – Bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig, lle mae'r awdurdod lleol wedi methu â gweithredu neu wedi gweithredu'n annigonol. Os yw awdurdod lleol wedi ymyrryd yn ddigonol, efallai na fyddai ysgol yn y sefyllfa hon. Mae gan awdurdod lleol gyfrifoldeb i ymdrin ag unrhyw faterion cysylltiedig.**

- Cau chweched dosbarth o fewn ysgol. Mae gan hyn oblygiadau i brosesau cydweithio ôl 16 ac wrth gyflwyno ysgolion 11-16 a 11-18 cymysg yn yr un ardal gyda'r pwysau ar fynediad a ddaw i'w ganlyn.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – Os byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried cau chweched dosbarth o fewn ysgol gan ei fod angen gwelliannau sylweddol, byddai ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i'r effaith bosibl ar y broses o ddarparu'r cwricwlwm ac i'r ysgolion yn yr ardal ehangach.**

- Mae'n aneglur pam mae angen cyflwyno copi terfynol o'r Cynllun Gweithredu o fewn 2 ddiwrnod i'w gwblhau? Mae hyn yn ymddangos yn rhyfedd. Onid oes angen cyflwyno'r Cynllun Gweithredu erbyn y dyddiad cwblhau sy'n ofynnol yn y fframwaith?
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno y dylid tynnu'r datganiad hwn. Nid yw'r dyddiad cwblhau wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddeddfwriaeth. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn nodi y dylid cyflwyno'r cynllun gweithredu o fewn y dyddiad cwblhau o 45 diwrnod a roddwyd i'w baratoi.**

- Mae'n hanfodol y dylai fod yn ofynnol i awdurdodau lleol ymgysylltu'n drylwyr ac effeithiol ag esgobaethau cyn gynted ag y bydd unrhyw broblemau'n cael eu nodi. Falch o weld bod sawl cyfeiriad at weithio mewn partneriaeth yn y ddogfen. Mae'r cyfeiriadau hyn yn nodi, e.e. "lle bo'n briodol". Gwerthfawrogwn fod hyn i fod i olygu y dylid gwneud hyn pan fo'r ysgol yn ysgol Eglwys ac felly bodd awdurdod esgobaethol ar gael. Gallai awdurdodau lleol ddehongli bod hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt weithio mewn partneriaeth ag awdurdod crefyddol (esgobaeth) yn unig os ydynt yn ystyried bod hyn yn briodol. Efallai y gellid newid y derminoleg hon i newid "lle'n briodol" i "yn achos ysgol Eglwys". Yng Nghymru, yr unig ysgolion â chymeriad crefyddol yw ysgolion Eglwys, h.y. ysgolion Catholig neu ysgolion yr Eglwys yng Nghymru, sydd â strwythurau esgobaethol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno i newid y geiriad. Fodd bynnag, i fod yn gyson â'r geiriad a bennwyd gan y gyfraith, bydd**

**y derminoleg yn cael ei newid i 'ysgolion sydd â chymeriad crefyddol'.**

- Mae tudalen 13, paragraff 1.20 yn cyfeirio at hysbysiad rhybuddio'n cael ei roi yn achos ysgol Sefydledig i'r person sy'n penodi llywodraethwyr ysgol Sefydledig yn unig a chorff crefyddol priodol yr ysgol mewn ysgol sydd â chymeriad crefyddol. Ni chyfeirir at ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir neu ysgolion Gwirfoddol a Reolir yma.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno i'w gynnwys**

- Mae Tudalen 14, paragraffau 2.2-2.4 yn cyfeirio at bwerau awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gofyniad i sicrhau cyngor neu gydweithio. Nodir bod y pŵer cyfwerth sy'n cael ei arfer gan Weinidogion Cymru yn cyfeirio at ddisgwyliad y bydd Gweinidog Cymru yn ystyried cymeriad elusennol/ crefyddol Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgol Sefydledig. Byddai'n ddefnyddiol pe bai hyn yn berthnasol hefyd i bwerau awdurdodau lleol.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – (gweler tudalen 22). Cytuno. Ychwanegu'r geiriad at baragraff 2.4.**

- Tudalen 15 – nodir bod ychwanegiadau defnyddiol wedi bod mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymdrin â phenodi llywodraethwyr ychwanegol, gan gynnwys troednodyn sy'n tynnu sylw at yr angen i gydymffurfio â chyfrifoldebau cyfreithiol fel ymddiriedolwyr elusennol a chyda dogfen lywodraethu'r elusen. Byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at y gofynion ychwanegol gan eu bod yn ymwneud â chymhlethdodau cyfraith elusen a'r angen i gydymffurfio â'r Weithred Ymddiriedolaeth. Yng nghyfraith Canon, os newidir trefniadau llywodraethu ysgol Gatholig bydd yr ysgol yn peidio â bod yn ysgol Gatholig os nad yw'r trefniadau llywodraethu newydd yn cael eu cymeradwyo gan yr esgob. Gallai fod yn syniad ychwanegu nodyn rhybuddio yma y gall y newidiadau o ran llywodraethu ysgol wirfoddol arwain at ganlyniadau annisgwyl a phwysleisio'r angen i ymgynghori â'r awdurdod crefyddol o'r dechrau.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cyfeirir at hyn eisoes yn yr enghraifft ym mharagraff 2.5.**

- Tudalen 17, paragraff 2.14 a Thudalen 35, paragraff 7 – mae'r paragraffau hyn yn gamarweiniol gan eu bod yn dweud nad oes grym i Offeryn Llywodraethu'r ysgol mewn perthynas â'r BGI. Rydym am dynnu eich sylw at ddarpariaethau Atodlen 13 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Mae Atodlen 13 yn darparu nad yw Rheoliadau a wneir o dan a.19 (2) neu (3) Deddf Addysg 2002 yn gymwys mewn perthynas â BGIau. Mae adrannau 19(2) a (3) yn nodi'r gofyniad mewn perthynas â chyfansoddiad y Corff Llywodraethu. Yn benodol, mae paragraff 13(3) Atodlen 1 yn nodi nad oes grym i Offeryn Llywodraethu mewn perthynas â'r BGI **cyn belled ag y mae'n ymwneud â chyfansoddiad y Corff Llywodraethu** (ein pwyslais). Ar agweddau eraill, nid oes grym i'r Offeryn Llywodraethu a dylid egluro hynny.

**Ymateb Llywodraeth Cymru – bydd geiriad y canllawiau'n cael eu diwygio yn ôl yr awgrym.**

- Mae rhywfaint o anghysondeb mewn perthynas â'r cyfeiriadau at yr awdurdod crefyddol priodol – cyfeirir ato fel hynny ar adegau ac fel yr esgobaeth ar adegau eraill. Byddai'n ddefnyddiol pe bai cyfeiriadau'n gyson er mwyn osgoi dryswch.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – cytuno. Ail-eirio pob cyfeiriad at awdurdod crefyddol.**

- Mae'n amlwg o'r Canllawiau drafft mai rôl awdurdodau lleol yw ymyrryd mewn ysgolion yn y lle cyntaf, os oes unrhyw un o'r chwe sail dros ymyrryd yn bresennol. Croesewir yr eglurder hwn. Mae'n amlwg yn y Canllawiau y dylai awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru gyfathrebu'n amserol ac yn agored er mwyn hysbysu'r naill ochr a'r llall o unrhyw ymyrraeth a wneir neu sydd ar y gweill.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Ym mharagraff 1.3, mewn perthynas â sail 5 a 6, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried a ellid cyfuno'r ddwy elfen.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – ni ellir cyfuno'r ddwy elfen gan eu bod yn cyfeirio at wahanol seiliau. Mae sail 5 yn cyfeirio at yr ysgol yn 'methu gweithredu' tra bod sail 6 yn cyfeirio at yr ysgol yn 'gweithredu'n annigonol/afresymol'.**

- Ymddengys bod rhywbeth yn anghywir yn syth ar ôl y paragraff ar sail 3 (1.12) lle mae'r ddogfen yn neidio i "*cyflwyno hysbysiad rhybuddio*" (1.13).
**Ymateb Llywodraeth Crymu – bydd tystiolaeth yn cael ei hychwanegu ar gyfer seiliau 4, 5 a 6.**

- Mae Pennod 2, paragraff 2.1 yn egluro'r pwerau a'r mathau o ymyriadau y gall awdurdodau lleol eu defnyddio o dan adrannau 5 i 9 o Ddeddf 2013 a bod pwerau Gweinidogion Cymru o fewn adran 12 i 18. Fodd bynnag, ym mharagraff 2.31, mae'n nodi bod pwerau ymyrryd Gweinidogion Cymru o dan adrannau 10-19 o ddeddf 2013. Byddai'n ddefnyddiol darparu eglurder ynghylch y manylion hyn.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – mae paragraff 54 yn cyfeirio at baragraffau o fewn Deddf 2013 sy'n benodol i'r gwahanol fathau o ymyriadau, e.e. i sicrhau cyngor neu gydweithio, penodi llywodraethwyr ychwanegol ac ati. Mae paragraff 2.31 yn cyfeirio at yr holl ddarpariaethau yn Neddf 2013 sy'n ymwneud ag ymyrraeth gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys hysbysiadau rhybuddio a phwerau ymyrryd.**

- Croesewir yr eglurder ym mharagraff 3.1 mewn perthynas â'r ffaith mai dyletswydd yr awdurdod lleol yw gwneud defnydd pendant ac effeithiol o'r pwerau ymyrryd ac y bydd Gweinidogion Cymru ond yn defnyddio eu pwerau lle mae awdurdodau lleol wedi methu gwneud hynny neu, wedi gwneud yn annigonol.

**Ymateb Llywodraeth Cymru – nodwyd.**

- Mae'r manylion ym Mhennod 3 yn adran 12, 13, 14, 15 ac 17 yn glir ac yn ddiamwys a chroesewir hynny. Fodd bynnag, ni chyfeirir at Adran 18 a 19.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – mae adran 18 a 19 Deddf 2013 yn cyfeirio at wybodaeth atodol mewn perthynas ag Aelodau Gweithredol Dros Dro a Chyfarwyddiadau. Cyfeirir at wybodaeth am y meysydd hyn yn y canllawiau.**

- **Pennod 4**, paragraff 4.5. Mae CLlLC yn argymell yn gryf y dylid cryfhau'r geiriad "fel arfer, *dylai'r llywodraethwyr wahodd yr awdurdod lleol*" i nodi bod yn rhaid i'r llywodraethwyr wahodd yr awdurdod lleol oni bai fod rheswm cadarn dros wneud fel arall.
**Ymateb Llywodraeth Cymru – mae'r geiriad wedi'i ddiwygio i nodi bod yn 'Rhaid i'r llywodraethwyr wahodd yr awdurdod lleol, a'r esgobaeth lle bo'n briodol, i fod yn bresennol yn y cyfarfod adborth, neu ran ohono. Yn hytrach na hynny, efallai y bydd yr awdurdod lleol am gael ei gynrychioli gan gynrychiolydd o'r consortiwm rhanbarthol. Fodd bynnag, dim ond un cynrychiolydd o'r awdurdod lleol neu'r consortiwm rhanbarthol ddylai fynychu, nid y ddau'.**

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori hwn.

## Y camau nesaf

Bydd y newidiadau y cytunwyd arnynt yn cael eu gwneud i'r canllawiau. Bydd y canllawiau'n cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn dod i rym ynghyd â'r darpariaethau cysylltiedig o fewn Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

## Rhestr o'r ymatebwyr

1. Colin Roberts, Ysgol Pendref
2. NUT Cymru
3. Hayley Bishop
4. Steve Davies, Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru
5. Llywodraethwyr Cymru
6. ATL Cymru
7. Cyngor Sir Caerfyrddin
8. ASCL Cymru
9. Mae'r ymatebydd am barhau'n ddienw
10. Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig
11. NASUWT Cymru
12. Cyngor Sir y Fflint
13. NAHT Cymru
14. Mae'r ymatebydd am barhau'n ddienw
15. CLlLC